

Digimap for Schools

Beth yw'r ffordd gyflymaf i
gyrraedd yr ysgol?

Paula Owens

Adnodd Dysgu Daearyddiaeth
Cyfnod Allweddol 1



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap ar gyfer Adnoddau Daeryddiaeth Ysgolion

Canllaw i athrawon yw'r adnoddau hyn i ddangos i'r dosbarth cyfan neu i gyfarwyddo myfyrwyr unigol yn ôl y galw. Mae pob gweithgaredd yn cynnwys nifer o syniadau y gallwch eu teilwra i gwrdd ag anghenion eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys taflenni gwaith i'w dosbarthu'n uniongyrchol i'r disgyblion.

Teitl: Beth yw'r ffordd gyflymaf o gyrraedd yr ysgol?

Lefel	Cyd-destun	Lleoliad
Cyfnod Allweddol 1	Yr ardal leol, y daith i'r ysgol	Yr ardal leol

Gwybodaeth	Plotio llwybrau syml. Defnyddio offer mesur. Adnabod nodweddion map syml. Dechrau defnyddio allwedd.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Lloegr)	Astudio daeryddiaeth yr ysgol a nodweddion dynol a ffisegol allweddol yr ardal leol.
Cysylltu â'r cwricwlwm (Cymru)	Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Dysgu am bellter a sut i ddilyn cyfarwyddiadau a llwybrau.
Cwricwlwm yr Alban dros Ragoriaeth	Deilliannau Astudiaethau Cymdeithasol: Pobl, Lle a'r Amgylchedd: 0-07a, 1-07a, 1-14a,

Gweithgaredd

Archwilio gwahanol llwybrau i'r ysgol a pham a sut mae rhai llwybrau yn fyrrach nag eraill. Marcio ac amcan fesur eu llwybrau i'r ysgol.

Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys cyfarwyddiadau cam wrth gam *Digimap for Schools*, sy'n ei gwneud yn addas ar gyfer athrawon a disgyblion heb unrhyw brofiad blaenorol o'r gwasanaeth. Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i ddylunio ar gyfer disgyblion sydd â mynediad unigol at *Digimap for Schools* ond byddai'n bosibl addasu'r gweithgaredd ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n cydweithio. Yn ogystal, gall yr athro foddelu rhai enghreifftiau fel gweithgaredd dosbarth cyfan er mwyn hyrwyddo trafodaethau cyffredinol am sut mae'r disgyblion yn teithio i'r ysgol.

Cyflwyniad

Mae gan bob disgybl brofiad o gyrraedd yr ysgol gan ddefnyddio llwybrau gwahanol a dulliau trafniadaeth gwahanol. Mae *Digimap for Schools* yn eich galluogi chi i fesur ac i blotio'r llwybrau hyn, gan helpu'r plant i wneud cysylltiadau rhwng pellter a mathau o deithio ac i ddechrau adnabod patrymau yn y tirlun.

Mae'n ddefnyddiol os oes gan y plant brofiad blaenorol o siarad am fapiau ac o greu mapiau llawrydd o'u llwybrau i'r ysgol.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Rhai cwestiynau defnyddiol i'w harchwilio cyn dechrau ar y gweithgaredd:






- Sut ydych chi'n cyrraedd yr ysgol a pham eich bod chi'n teithio yn y ffordd hon?
- Pa mor hir mae hi'n cymryd i chi gyrraedd yr ysgol?
- Pa mor bell yw eich taith?
- Beth ydych chi'n ei weld ar hyd y daith?
- Ydych chi'n mynd yr un ffordd bob tro?
- Pa lwybr fydddech chi'n ei ddilyn petaech yn aderyn ac yn gallu hedfan yn syth i'r ysgol?

Prif weithgaredd

Bydd y disgyblion yn dychmygu eu bod nhw'n adar ac yn gallu hedfan yn uniongyrchol i'r ysgol mewn llinell syth o'u tai, 'fel yr hed y frân'. Bydd y disgyblion yn tynnu llinell syth o'u cartrefi i'r ysgol, ac yn mesur ac yn cofnodi'r pellter.

Wedyn, byddant yn tynnu llinell i'r ysgol o'u cartrefi gan ddilyn y llwybr maen nhw fel arfer yn ei ddilyn, ac yn ei fesur. Yna, byddant yn cymharu'r ddau.



Tasgau

1. Agorwch *Digimap for Schools* a helpwch y disgyblion i ddod o hyd i fap sy'n dangos eu cartrefi a'r ysgol. Dylai'r disgyblion glosio mor agos ag sy'n bosibl at y map heb gollu golwg o'r ddau le (gwnewch i'r map lenwi'r sgrin trwy ddefnyddio ) Marciwch  y ddau leoliad.
2. Agorwch y bar offer nodiadau (*Annotations Toolbar*). Dewiswch y lliw a'r math o linell y dymunwch ei defnyddio yn ogystal â lliw'r ffont a maint y testun (y dewis llinell diofyn yw porffor cadarn, sy'n amlwg iawn. Y maint testun diofyn yw 36, er bod 26 yn faint gwell).
3. Nawr, tynnwch linell gan ddefnyddio . Cliciwch ar y tŷ i ddechrau a thynnu'r llinell yn syth at yr ysgol. Cliciwch ddwywaith i orffen.
4. Dewiswch  a'r llinell yr hoffech chi ei mesur. Gallwch weld y canlyniad fel cilometrau neu filltiroedd, ac ar ôl i chi ddewis un neu'r llall, bydd y canlyniad yn cael ei ddangos ar eich llinell. Gallwch symud y mesuriad i safle mwy cyfleus trwy ddewis  a'r eitem rydych yn dymuno ei symud. Defnyddiwch yr eicon '*Fade map*' i wneud y mesuriad yn fwy eglur.



Digimap for Schools


<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



5. Nawr, mae'n bryd i'r disgyblion ddod o hyd i'r llwybr go iawn i'r ysgol. Ailadroddwch y broses ond, y tro hwn, dewiswch liw gwahanol a'r math o linell cyn cychwyn. Wrth dynnu'r llinell, cliciwch bob tro rydych yn newid cyfeiriad. Neu, gallwch wasgu 'Shift' er mwyn tynnu'r llinell yn llawrydd. Cliciwch ddwywaith i orffen.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

6. Agorwch yr offeryn mesur fel o'r blaen a dewiswch y llwybr hwn i'w fesur. Cyfrifwch y gwahaniaeth rhwng y ddau bellter.
7. Yn olaf, ychwanegwch labeli gan ddefnyddio , gan gofio dewis y ffont a lliw'r testun cyn gosod y label. Gallwch gynnwys y labeli canlynol:
 - Fy nhŷ
 - Enw'r ysgol
 - Fel yr hed y frân
 - Fy nhaith i'r ysgol
8. Trafodwch sut a pham mae'r ddau bellter yn wahanol, gan ystyried nodweddion y tirlun, yn enwedig y rhwystrau a'r ffiniau.
 - Pam na allwn ni deithio yn uniongyrchol i'r ysgol mewn llinell syth?
 - Pam nad yw'r ffyrdd yn dilyn y llwybr cyflymaf bob tro?
 - Pam nad ydym yn gallu cerdded i rai lleoedd mewn llinell syth?

Defnyddiwch y mapiau i drafod y nodweddion rydych yn mynd heibio iddynt ar eich ffordd i'r ysgol ar hyd y llwybr arferol a pha bethau ychwanegol y byddech, o bosibl, yn eu gweld petaech yn gallu hedfan yn syth. Defnyddiwch allwedd y map i amlygu rhai o'r rhain.

Mynd ymhellach

- Crëwch adnodd dosbarth yn dangos faint o ddisgyblion sy'n byw o fewn pellteroedd amrywiol i'r ysgol.


Yn gyntaf, dewiswch liw amlinellol a fydd yn ddigon amlwg (er enghraifft, glas tywyll) a llinell wen gadarn, ganolig neu drwchus. Sicrhewch fod y tryloywder yn 100%.



Gan ddefnyddio'r offeryn hwn, tynnwch fyffrau 0.5 cilometr, 1 cilometr a 2 gilometr (neu fwy) o amgylch eich ysgol. Bydd angen i chi dynnu allan o'r map i weld y cylchoedd. Yn ogystal, gallwch ychwanegu labeli i'r byffrau i ddangos pa mor bell ydynt o'r ysgol. Gofynnwch i bob disgybl ychwanegu marciwr yn dangos ble maen nhw'n byw. Trafodwch y canlyniadau gyda'r dosbarth.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



- Ysgrifennwch stori fer o safbwynt aderyn am daith i'r ysgol, gan gymryd y llwybr uniongyrchol.
- Chwiliwch y map i ddod o hyd i enghreifftiau o leoedd sy'n agos iawn at ei gilydd 'fel yr hed y frân', ond sydd wedi'u gwahanu gan bellteroedd mawr oherwydd nodweddion y tirlun, megis dŵr; er enghraifft: Minehead a Chaerdydd. Trafodwch bwysigrwydd pontydd.
- Archwiliwch y llwybrau mwyaf diogel i'r ysgol i gerddwyr. Penderfynwch sut mae'n bosibl annog rhieni i rannu ceir neu i gerdded i'r ysgol yn lle gyrru.
- Edrychwch ar y golygfeydd o'r awyr o'ch llwybrau i'r ysgol gan ddefnyddio 'Where's the path'.

Defnyddiwch 'Tripgeo' i weld map o'ch llwybr i'r ysgol wedi'i animeiddio.

Dolenni

- Mapiau o'ch llwybr i'r ysgol wedi'u hanimeiddio www.tripgeo.com
- Cymharu golygfeydd o'r awyr â mapiau <http://wtp2.appspot.com/wheresthepath.htm>



© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Trwyddedir y gwaith hwn yn unol â Thrydded Anfasnachol – Priodoliad Creadigol Cyffredin.